# Polisi a gweithdrefn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer hysbysu’r Rheoleiddiwr Pensiynau am Achosion o Dorri’r Gyfraith


| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | |
| Amcanion y Polisi | |
| Pwrpas y Polisi | |
| Dyddiad pryd y daw i rym | |
| Hyd a Lled | |
| Y Gofynion Cyfreithiol | |
| Achos Rhesymol | |
| Arwyddocâd Perthnasol | |
| Goblygiadau ehangach yr achos o dorri’r gyfraith | |
| Canllaw ar Hysbysu’r Rheoleiddiwr am achos o dorri’r gyfraith | |
| Y broses ar gyfer hysbysu ynghylch achosion perthnasol ac amherthnasol o dorri’r gyfraith yng Nghronfa Bensiynau Sir Gaerfyrddin, ynghyd â’u cofnodi | |
| Amddiffyniad chwythu’r chwiban, a chyfrinachedd | |
| Adolygu | |
| Atodiad 1 | |
| Atodiad 2 | |
| Atodiad 3 | |

## 1.0 Cyflwyniad

1.1 Dyma Bolisi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar Hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiynau am Achosion o Dorri'r Gyfraith.

1.2 Mae amryw o gyfreithiau sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, ac mae gan amryw o bobl ddyletswydd statudol i hysbysu'r Rheoleiddiwr am achosion perthnasol o dorri'r gyfraith. I gynorthwyo gyda hyn, mae'r Cod yn datgan y dylid sefydlu gweithdrefn i sicrhau bod y rhai sydd â chyfrifoldeb i wneud adroddiadau'n gallu cyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol; y ddogfen hon yw'r weithdrefn honno.

1.3 Yn Ebrill 2015, fe wnaeth y Rheoleiddiwr Pensiynau (y Rheoleiddiwr) gyhoeddi ei God Ymarfer rhif 14 (y Cod) Llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cod yn cyfeirio at ddyletswydd statudol yn ogystal â dyletswydd gynghorol, ac mae dyletswydd ar ymarferwyr i ddilyn y cod wrth hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith.

1.4 Gall achosion o dorri'r gyfraith ddigwydd mewn perthynas ag amrywiaeth eang o'r tasgau sy'n gysylltiedig yn arferol â swyddogaeth weinyddol cynllun, megis cadw cofnodion, cyfrifo buddion ac, o ran cynlluniau pensiwn sy'n cael eu hariannu, y mater o wneud buddsoddiad neu benderfyniadau sy'n ymwneud â buddsoddi.

1.5 Mae'n bwysig canfod ac asesu achos o dorri'r gyfraith wrth leihau risg a darparu rhybudd cynnar fod camarfer posibl mewn cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus.

## 2.0 Amcanion y Polisi

2.1 Dyma'r amcanion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn:

- Cael trefniadau llywodraethu cadarn i'w gwneud yn haws i wneud penderfyniadau gwybodus, gyda chymorth cyngor, polisïau a strategaethau priodol;
- Sicrhau bod unigolion sydd â dyletswydd gyfreithiol i hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn cael hyfforddiant i sicrhau bod y sgiliau hynny'n cael eu cynnal mewn amgylchedd sy'n newid; a
- Galluogi pobl i fynegi pryderon a hwyluso'r gwaith o ystyried y materion hynny'n wrthrychol. Mae'r polisi hwn yn caniatáu i hysbysydd benderfynu, o fewn amserlen briodol, a oes raid iddo hysbysu ynghylch achos o dorri'r gyfraith.

## 3.0 Pwrpas y Polisi

3.1 Dyma bwrpas y polisi:

- Sicrhau bod gan unigolion y ddealltwriaeth gywir a'r sgiliau angenrheidiol i allu canfod achosion o dorri'r gyfraith a hysbysu yn eu cylch pan fyddant yn digwydd;
- Sicrhau bod rhanddeiliaid y Cronfeydd Pensiwn yn cael gwybodaeth briodol i ddeall canlyniadau'r achos o dorri'r gyfraith; a

- Sicrhau bod gweithdrefnau digonol yn bodoli i gydymffurfio'n llwyr â'r Cod Ymarfer.

## 4.0 Dyddiad pryd y daw i rym

4.1 Cafodd y polisi hwn ei gymeradwyo gan y Bwrdd Pensiwn Lleol ar XXXXXX ac mae'n dod i rym ar XXXXXX.

## 5.0 Hyd a Lled

5.1 Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- rheolwr y cynllun
- aelod o fwrdd pensiwn
- cyflogwr
- cynghorydd proffesiynol, e.e. archwilydd, cynghorydd cyfreithiol, rheolwr cronfa
- rhywun sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun
- rhywun sy'n cynghori rheolwr y cynllun.

## 6.0 Y gofynion cyfreithiol

6.1 Mae'n ofynnol i unigolion (fel y nodir ym mharagraff 6) hysbysu'r Rheoleiddiwr ynghylch achosion o dorri'r gyfraith pan fo ganddynt achos rhesymol i gredu:

- na fu, neu nad oes, cydymffurfiaeth â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i weinyddu'r cynllun; a
- bod methu â chydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr o ran cyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau.

6.2 Rhaid i bob ochr ddeall a mabwysiadu'r polisi hwn.

## 7.0 Achos Rhesymol

7.1 Mae cael 'achos rhesymol' i gredu bod achos o dorri'r gyfraith wedi digwydd yn golygu mwy na dim ond cael amheuaeth nad oes modd ei gadarnhau.

7.2 Dylai hysbyswyr sicrhau eu bod, pan amheuir fod achos o dorri'r gyfraith, yn cynnal archwiliadau i sefydlu a dorrwyd y gyfraith ai peidio mewn gwirionedd. Mae angen cynnal archwiliadau er mwyn sicrhau bod y gyfraith wedi cael ei thorri ac nad yw'r hysbysiad yn cael ei wneud ar sail amheuaeth. Os nad yw unigolyn yn teimlo y gall fod yn sicr 100% fod y gyfraith wedi cael ei thorri, doeth fyddai trafod yr achos gyda chydweithiwr uwch neu ymgynghorydd i'r Gronfa. Ond os yw'r amheuaeth yn ymwneud â lladrad, twyll ariannol neu droseddau difrifol eraill pryd y gallai trafodaethau rybuddio'r rhai sy'n gysylltiedig neu atal yr heddlu neu awdurdod rheoleiddiol rhag gweithredu, dylai'r hysbysydd fynd yn uniongyrchol at y Rheoleiddiwr cyn gynted ag y bo modd.

7.3 Wrth sefydlu a oes achos rhesymol i gredu bod y gyfraith wedi cael ei thorri, nid oes raid casglu'r holl dystiolaeth y gallai fod angen ar y Rheoleiddiwr cyn cymryd camau cyfreithiol, yn enwedig os yw'n achos o arwyddocâd perthnasol. Gallai

oedi cyn hysbysu waethygu neu gynyddu’r risg sy’n gysylltiedig â’r achos o dorri’r gyfraith.

7.4 Os yw’r hysbysydd yn aneglur ynglŷn â’r ddarpariaeth gyfreithiol berthnasol, dylai gael eglurhad i’w ddealltwriaeth o’r gyfraith i’r graddau sy’n angenrheidiol er mwyn ffurfio barn. I gael Cydymffurfiaeth neu os oes angen i’r unigolyn hysbysu’r Rheoleiddiwr ar wahân, dylai holi swyddog monitro’r Awdurdod.

## 8.0 Arwyddocâd Perthnasol

8.1 Wrth benderfynu a yw’r achos o dorri’r gyfraith yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol i’r Rheoleiddiwr, y cyngor yw bod yr hysbysydd yn ystyried:

- yr hyn a arweiniodd at dorri’r gyfraith;
- effaith yr achos o dorri’r gyfraith;
- yr ymateb i’r achos o dorri’r gyfraith; a
- beth yw goblygiadau ehangach yr achos o dorri’r gyfraith.

8.2 Wrth benderfynu hysbysu ai peidio, dylai’r rhai sy’n gyfrifol ystyried y pwyntiau hyn ynghyd â fframwaith goleuadau traffig y Rheoleiddiwr Pensiynau (DOLEN yma). Dylai hysbyswyr ystyried cyngor arbenigol neu broffesiynol pan fo’n briodol wrth ystyried a yw’r achos o dorri’r gyfraith yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol i’r Rheoleiddiwr.

8.3 Wrth benderfynu a yw’r achos o dorri’r gyfraith yn un ag arwyddocâd perthnasol, dylai’r rhai sy’n gyfrifol ystyried achosion eraill o dorri’r gyfraith, a hysbyswyd ac na hysbyswyd, y maent yn ymwybodol ohonynt. Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth ystyried gwybodaeth hanesyddol, yn enwedig os gwnaed newidiadau i fynd i’r afael â phroblemau a ganfuwyd o’r blaen.

8.4 Mae’r achos yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol i’r Rheoleiddiwr os cafodd ei achosi gan:

- anonestrwydd;
- llywodraethu neu weinyddu gwael;
- arferion gwneud penderfyniadau yn rhai hir neu amhriodol;
- cyngor anghyflawn neu anghywir; neu
- weithredu (neu beidio â gweithredu) yn fwriadol groes i’r gyfraith.

8.5 Rhaid i hysbyswyr ystyried effeithiau unrhyw achos o dorri’r gyfraith, ond gan dalu sylw i rôl y Rheoleiddiwr mewn perthynas â chynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus a’i amcanion statudol. Dylid ystyried bod y materion a ganlyn yn arbennig yn rhai ag arwyddocâd perthnasol i’r Rheoleiddiwr:

- aelodau’r Bwrdd Pensiwn heb y lefel briodol o wybodaeth a dealltwriaeth, gan arwain at sefyllfa lle nad yw’r Bwrdd yn cyflawni ei rôl, a’r Gronfa heb gael ei llywodraethu a’i gweinyddu’n briodol;

- Gwrthdaro rhwng buddiannau i aelodau’r Bwrdd Pensiwn, gan arwain at niweidio’r modd y maent yn cyflawni eu swydd;

- Heb sefydlu na gweithredu rheolaethau mewnol digonol, a allai arwain at sefyllfa lle nad yw'r Gronfa'n cael ei rhedeg yn unol â Rheoliadau'r Cynllun a gofynion cyfreithiol eraill, risgiau heb gael ei canfod a'u rheoli'n briodol a/neu yr arian cywir heb gael ei dalu i neu gan y Gronfa ar yr adeg gywir;

- Gwybodaeth gywir am fuddion a gweinyddu'r Cynllun heb gael ei darparu i aelodau'r Cynllun a phobl eraill, a allai arwain at yr aelodau'n methu cynllunio'n effeithiol neu wneud penderfyniadau am eu hymddeoliad;

- Cofnodion priodol heb gael eu cynnal a'u cadw, a allai arwain at gyfrifo buddion yn anghywir a/neu beidio â'u talu i'r person cywir ar yr adeg gywir;

- Unrhyw un sy'n ymwneud â gweinyddu neu reoli'r Gronfa yn camddefnyddio unrhyw un o'i asedau, neu fod yn debygol o wneud hynny, a allai arwain at beidio â diogelu asedau; ac

- Unrhyw achos arall o dorri'r gyfraith, a allai arwain at sefyllfa lle mae'r Gronfa'n cael ei llywodraethu, ei rheoli neu ei gweinyddu'n wael.

8.6 Ni fydd i achos o dorri'r gyfraith arwyddocâd perthnasol fel arfer os yw wedi digwydd o ganlyniad i un digwyddiad, er enghraifft oherwydd problemau cychwynnol bach gyda system neu weithdrefn newydd, neu oherwydd cyfuniad anarferol neu annisgwyl o amgylchiadau. Ond mewn sefyllfa o'r fath, mae hefyd yn bwysig ystyried agweddau eraill ar yr achos o dorri'r gyfraith, megis yr effaith a gafodd, a bod yn ymwybodol y gallai achosion cyson a phrin fod yn arwydd o broblemau gyda'r cynllun yn ehangach.

8.7 Pan gymerir camau prydlon ac effeithiol i ymchwilio a chywiro'r achos o dorri'r gyfraith, a'r hyn a arweiniodd at hynny, a phan fo'n briodol, pan roddir gwybod i unrhyw aelodau y mae hyn yn effeithio arnynt, ni fydd y Rheoleiddiwr fel arfer yn ystyried bod i hyn arwyddocâd perthnasol.

8.7 Mae achos o dorri'r gyfraith yn debygol o fod yn bryder ac o arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr pan ganfyddir achos o dorri'r gyfraith a phryd y mae'r rhai sy'n gysylltiedig â hynny:

- yn peidio â chymryd camau prydlon ac effeithiol i gywiro'r achos o dorri'r gyfraith, a chanfod a mynd i'r afael â'r hyn sy'n ei achosi er mwyn lleihau'r perygl y bydd yn digwydd eto;
- yn peidio â mynd ynglŷn â chamau i'w gywiro i'w terfyn priodol; ac
- yn peidio â rhoi gwybod i'r aelodau o'r cynllun y mae'r mater yn effeithio arnynt pryd y byddai wedi bod yn briodol gwneud hynny.

## 9.0 Goblygiadau ehangach yr achos o dorri'r gyfraith

9.1 Dylai hysbyswyr ystyried y goblygiadau ehangach sydd i achos o dorri'r gyfraith pan fyddant yn asesu pa achosion sy'n debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr.

9.2 Er enghraifft, mae achos o dorri’r gyfraith yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol pan fo’r ffaith fod yr achos wedi digwydd yn ei wneud iddo ymddangos yn fwy tebygol y bydd achosion eraill yn dod i’r amlwg yn y dyfodol.

9.3 Gallai hyn fod oherwydd nad oes gan reolwr y cynllun nac aelodau’r Bwrdd Pensiwn wybodaeth a dealltwriaeth briodol i gyflawni eu dyletswyddau neu pan y gallai cynlluniau pensiwn eraill gael eu heffeithio. Er enghraifft, gallai cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus sy’n cael eu gweinyddu gan yr un sefydliad gael eu heffeithio’n negyddol pan fo methiant mewn system wedi peri i’r achos ddigwydd.

**10.0 Canllawiau ynglŷn â Hysbysu’r Rheoleiddiwr am Achos o Dorri’r Gyfraith**

10.1 Cyn cyflwyno adroddiad, dylai swyddogion cyfrifol gael eglurhad, drwy ddull priodol, o’r gyfraith sy’n ymwneud â’r achos a amheuir o dorri’r gyfraith. Rhaid penderfynu a fyddai’r Rheoleiddiwr yn ystyried y byddai’r achos o dorri’r gyfraith yn un perthnasol.

10.2 Gallai rhai materion fod yn rhai brys, os er enghraifft y mae twyll ariannol ar fin digwydd, ond bydd llai o frys i rai eraill. Dylid hysbysu’r Rheoleiddiwr ynghylch achosion nad ydynt yn rhai brys ond sydd yn rhai perthnasol cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl eu cadarnhau, ac yn yr un amser dylai achosion nad ydynt yn rhai perthnasol gael eu cofnodi.

10.3 Gallai rhai achosion fod mor ddifrifol fel bod yn rhaid hysbysu yn eu cylch bob tro, er enghraifft os oes rhywun sy’n gysylltiedig â gweinyddu neu reoli’r Gronfa yn dwyn arian. Mae’n anodd bod yn bendant ynghylch yr hyn yw achos o dorri’r gyfraith y dylid hysbysu yn ei gylch, ond yn ôl synnwyr y fawd, os yw achos yn arwain at erlyniad troseddol neu golli hyder y cyhoedd yn ddifrifol cymerir bod rhaid hysbysu ynghylch y math hwn o achos bob amser.

10.4 Dylai unrhyw adroddiad a wneir (sef yn ysgrifenedig a chyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol) gynnwys y dyddiad ynghyd â’r canlynol, o leiaf:

- enw llawn y cynllun
- disgrifiad o’r achos neu’r achosion o dorri’r gyfraith;
- unrhyw ddyddiadau perthnasol;
- enw’r cyflogwr neu reolwr y cynllun (pan fo hynny’n hysbys)
- enw, swydd a manylion cyswllt yr hysbysydd; a
- rôl yr hysbysydd mewn perthynas â’r cynllun.

10.5 Byddai gwybodaeth ychwanegol a fyddai o gymorth i’r Rheoleiddiwr yn cynnwys y rheswm pam credir bod i’r achos arwyddocâd perthnasol i’r Rheoleiddiwr; cyfeiriad y Gronfa; rhif cofrestrfa’r cynllun pensiwn; ac a hysbyswyd ynghylch y pryder o’r blaen.

10.6 Dylai hysbyswyr nodi bod adroddiadau’n rhai brys os ydynt yn rhai brys, a dylent dynnu sylw at faterion sy’n rhai arbennig o ddifrifol yn eu tyb nhw. Gallant ffonio cyn anfon adroddiad ysgrifenedig, os yw hynny’n briodol.

10.7 Dylai hysbyswyr sicrhau eu bod yn cael cydnabyddiaeth am unrhyw adroddiad a anfonir ganddynt ar y Rheoleiddiwr. Dim ond ar ôl cael cydnabyddiaeth y gall yr hysbysydd fod yn hyderus fod y Rheoleiddiwr wedi cael ei adroddiad.

10.8 Bydd y Rheoleiddiwr yn cydnabod pob adroddiad cyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl ei gael, ond fel arfer ni fydd yn rhoi gwybod i'r hysbysydd am y camau a gymerir i ymateb i adroddiad ynghylch achos o dorri'r gyfraith oherwydd bod cyfyngiadau ar yr wybodaeth y gall ei datgelu. Dylai'r hysbysydd ddarparu rhagor o wybodaeth neu adroddiadau am achosion pellach o dorri'r gyfraith os gallai hyn fod o gymorth i'r Rheoleiddiwr gyflawni ei swyddogaeth. Mae'n bosibl y bydd y Rheoleiddiwr yn cysylltu i ofyn am ragor o wybodaeth.

10.9 Dylid hysbysu ynghylch achosion o dorri'r gyfraith cyn gynted ag y bo modd yn rhesymol ac ymarferol, a bydd hynny'n dibynnu ar yr amgylchiadau. Yn benodol, dylai'r amser a gymerir adlewyrchu pa mor ddifrifol yw'r achos a amheuir o dorri'r gyfraith.

10.10 Mewn achosion o risg uniongyrchol i'r Gronfa, er enghraifft, pan fo unrhyw arwydd o anonestrwydd, nid yw'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i hysbyswyr geisio esboniad nac asesu pa mor effeithiol yw unrhyw ddulliau arfaethedig i gywiro'r mater. Ni ddylent ond gwneud archwiliadau uniongyrchol fel y bo angen. Po fwyaf difrifol yw'r achos posibl a'i ganlyniadau, y cyflymaf y dylai hysbyswyr wneud yr archwiliadau angenrheidiol hyn. Mewn achoson o anonestrwydd posibl, dylai'r hysbysydd osgoi, os oes modd, archwiliadau a allai rybuddio'r rhai dan sylw. Mewn achosion difrifol, dylai'r hysbyswyr ddefnyddio'r dull cyflymaf posibl i dynnu sylw'r Rheoleiddiwr at yr achos o dorri'r gyfraith.

10.11 Pan ganfyddir nad yw achosion yn berthnasol i'r Rheoleiddiwr, rhaid eu cofnodi er hynny. Y rheswm am hyn yw os bydd achosion tebyg yn parhau, fe fyddant yn troi'n rhai perthnasol. Mae cofnodion pob achos hefyd yn tynnu sylw at y mannau lle mae angen gwelliannau er mwyn ceisio atal achosion tebyg.

## 11.0 Y broses ar gyfer hysbysu ynghylch achosion sylweddol ac ansylweddol, a'u cofnodi

11.1 Mae'r tabl a ganlyn yn rhestru'r broses:

| Math o Achos | Yr amserlen ar gyfer hysbysu | Camau mewnol | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| **Brys a Pherthnasol** | Y swyddog cyfrifol yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân. Hysbysir y Rheoleiddiwr Pensiynau ar unwaith. | Y Pwyllgor Archwilio yn cadw cofnod o'r achos ac yn ymchwilio i opsiynau i atal hynny rhag digwydd eto. | Hysbysu'r swyddog Adran 151 a'r Bwrdd Pensiwn Lleol ynghylch achosion brys a pherthnasol, cyflwyno adroddiad llawn i'r cyfarfod nesaf sydd ar gael. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ddim yn frys, a pherthnasol** | Y swyddog cyfrifol yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân, hysbysir y Rheoleiddiwr Pensiynau cyn pen 30 diwrnod. | Y Pwyllgor Archwilio yn cadw cofnod o'r achos ac yn ymchwilio i opsiynau i atal hyn rhag digwydd eto. | Hysbysir ynghylch achosion brys a pherthnasol yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Pensiwn. |
| **Ansylweddol** | Y swyddog cyfrifol yn rhoi gwybod i'r Dirprwy Brif Swyddog Tân cyn pen 30 niwrnod. | Y Pwyllgor Archwilio yn cadw cofnod o'r achos ac yn ymchwilio i opsiynau i atal hyn rhag digwydd eto. | Hysbysu ynghylch achos perthnasol yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Pensiwn. |

## 12.0 Amddiffyniad chwythu'r chwiban a chyfrinachedd

12.1 Mae Deddf Pensiynau 2004 yn ei gwneud yn glir fod y ddyletswydd statudol i hysbysu yn drech nag unrhyw ddyletswyddau eraill y gallai fod ar hysbysu, megis cyfrinachedd, ac nad oes dyletswydd o'r fath yn cael ei thorri wrth wneud adroddiad. Mae'r Rheoleiddiwr yn deall yr effaith bosibl y gallai adroddiad ei chael ar berthnasoedd, er enghraifft rhwng gweithiwr a'i gyflogwr.

12.2 Fodd bynnag, nid yw dyletswydd statudol i hysbysu yn drech na braint gyfreithiol. Mae hyn yn golygu nad oes raid datgelu cyfathrebiad ar lafar ac yn ysgrifenedig rhwng cynghorydd cyfreithiol a'i gleient, neu rywun sy'n cynrychioli'r cleient hwnnw, wrth gael cyngor cyfreithiol. Pan fo'n briodol, bydd cynghorydd cyfreithiol yn gallu darparu rhagor o wybodaeth ynghylch hyn.

12.3 Bydd y Rheoleiddiwr yn gwneud ei orau i ddiogelu hunaniaeth yr hysbyswr (os dymunir), ac ni fydd yn datgelu'r wybodaeth oni bai bod hynny'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Bydd yn cymryd yr holl gamau rhesymol i gadw cyfrinachedd, ond ni all roi unrhyw sicrwydd diamod oherwydd mae'n bosibl y bydd yr amgylchiadau'n golygu nad oes modd osgoi datgelu hunaniaeth yr hysbysydd yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau pryd mae llys yn gorchymyn i'r Rheoleiddiwr ei datgelu.

12.4 Mae Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 yn rhoi amddiffyniad i weithwyr sy'n gwneud datgeliad chwythu'r chwiban i'r Rheoleiddiwr. Felly, pan fo unigolion sy'n cael eu cyflogi gan gwmnïau neu sefydliad arall sydd â dyletswydd statudol i hysbysu yn anghytuno â phenderfyniad i hysbysu'r Rheoleiddiwr, mae'n bosibl y bydd amddiffyniad iddynt gan y Ddeddf Hawliau Cyflogaeth os ydynt yn gwneud adroddiad unigol mewn ewyllys da. Mae'r Rheoleiddiwr yn disgwyl i adroddiadau unigol o'r fath fod yn rhai prin ac wedi'u cyfyngu i'r achosion mwyaf difrifol.

## 13.0 Adolygu

13.1 Mae disgwyl i'r polisi hwn ar Hysbysu'r Rheoleiddiwr am Achosion o Dorri'r Gyfraith fod yn briodol yn y tymor hir, ond caiff ei adolygu bob blwyddyn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n gywir ac yn berthnasol.

**Atodiad 1 Enghreifftiau o dorri'r gyfraith, ond heb fod yn gyfyngedig i'r rhain:**

Enghraifft 1
Mae cyflogwr yn hwyr yn talu cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr, ac mor hwyr fel ei fod yn torri'r cyfnod statudol ar gyfer gwneud taliadau o'r fath. Mae swyddogion o'r awdurdod gweinyddu yn cysylltu ag ef, mae'n talu'r arian dyledus ar unwaith, ac mae'n gwella ei weithdrefnau fel bod y cyfraniadau'n cael eu talu drosodd mewn pryd yn y dyfodol. Bu achos o dorri'r gyfraith yn yr achos hwn, ond nid effeithiwyd yn ddrwg ar yr aelodau ac mae'r cyflogwr wedi rhoi trefn ar ei bethau o ran taliadau yn y dyfodol. Nid yw'r achos felly'n un perthnasaol i'r Rheoleiddiwr ac nid oes angen ei hysbysu.

Enghraifft 2
Mae cyflogwr yn hwyr yn talu cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr, ac mor hwyr fel ei fod yn torri'r cyfnod statudol ar gyfer gwneud taliadau o'r fath. Mae hefyd yn hwyr wrth dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (AVCs) i'r Prudential. Mae swyddogion o'r awdurdod gweinyddu yn cysylltu ag ef, ac yn y diwedd mae'n talu'r arian sy'n ddyledus, gan gynnwys AVCs i'r Prudential. Mae hyn wedi digwydd o'r blaen, ac nid oes tystiolaeth fod y cyflogwr yn rhoi trefn ar ei bethau. Y tro hwn, fe fu achos o dorri'r gyfraith *sydd yn* berthnasol i'r Rheoleiddiwr, a hynny'n rhannol oherwydd bod y cyflogwr wedi methu fwy nag unwaith a hefyd oherwydd y bydd yr aelodau sy'n talu AVCs yn cael eu heffeithio'n negyddol gan yr oedi wrth fuddsoddi eu AVCs.

Enghraifft 3
Mae cyflogwr yn hwyr yn cyflwyno ei adroddiad statudol diwedd blwyddyn ar daliadau a chyfraniadau mewn perthynas â phob un o'i aelodau gweithredol, felly mae'n torri'r gyfraith. Er ei atgoffa droeon, nid yw'n cyflwyno ei adroddiad diwedd blwyddyn. Gan nad yw'r data diwedd blwyddyn gan yr awdurdod gweinyddu, mae'n methu darparu datganiadau buddion blynyddol i aelodau'r cyflogwr erbyn 31 Awst. Y tro hwn, torrwyd y gyfraith mewn modd *sydd yn* berthnasol i'r Rheoleiddiwr, yn rhannol oherwydd methiannau'r cyflogwr, a hynny'n rhannol oherwydd bod yr awdurdod gweinyddu wedi gorfodi torri'r gyfraith, a hefyd oherwydd gwrthodwyd rhoi datganiadau buddion blynyddol i'r aelodau.

Enghraifft 4
Darganfyddir bod pensiwn wedi'i ordalu felly mae'r awdurdod gweinyddu wedi methu â thalu'r symiau cywir i'r person cywir ar yr adeg iawn. Torrwyd y gyfraith felly. Fodd bynnag, swm bach yw'r gordaliad ac ni allai'r pensiynwr fod wedi gwybod ei fod yn cael ei ordalu. Anwybyddir y gordaliad felly. Y tro hwn, nid oes angen hysbysu ynghylch yr achos o dorri'r gyfraith oherwydd nid yw'n un perthnasol.

Enghraifft 5
Darganfyddir nifer o ordaliadau felly mae'r awdurdod gweinyddu wedi methu â thalu'r symiau cywir i'r unigolion dan sylw oherwydd methiant proses. Mae'r awdurdod gweinyddu wedi methu â sefydlu proses i osgoi hyn rhag digwydd eto, ac mae'r swm cyfunol yn un sylweddol. Yn yr achos hwn, torrwyd y gyfraith mewn modd sy'n berthnasol i'r Rheoleiddiwr, a hynny'n rhannol oherwydd methiant yr awdurdod i weithredu proses newydd/well ac yn rhannol oherwydd bod yr awdurdod gweinyddu wedi gorfodi torri'r gyfraith.

**Dolen yma i fframwaith goleuadau traffig pecyn cymorth y Rheoleiddiwr Pensiynau**

**Atodiad 1**

**Achos o Dorri’r Gyfraith**

| **Manylion yr Achos o Dorri’r Gyfraith** | |
|---|---|
| Dyddiad pryd y torrwyd y gyfraith | |
| Pa fath o ddatgeliad a wnaed? | |
| Rhowch fanylion yr achos o dorri’r gyfraith (hyd at 4000 o nodau teipio) | |
| **Cywiro’r achos o dorri’r gyfraith** | |
| A yw’r achos wedi cael ei gywiro? | |
| Os do, pa gamau a gymerwyd i gywiro’r achos o dorri’r gyfraith? | |
| Os naddo, pa gamau sy’n cael eu cymryd i gywiro’r achos o dorri’r gyfraith? | |
| Os nad yw’r achos wedi cael ei gywiro, beth yw’r amserlen ar gyfer cwblhau hynny? | |
| **Achosion eraill o dorri’r gyfraith neu unrhyw wybodaeth arall** | |
| Rhowch fanylion unrhyw achosion eraill o dorri’r gyfraith neu wybodaeth arall sy’n berthnasol yn eich tyb chi (hyd at uchafswm o 4000 o nodau teipio) | |
| **Penderfyniadau i hysbysu yn eu cylch** | |
| Enw a swydd y sawl sy’n hysbysu | |
| Penderfyniad i hysbysu ai peidio (Ie neu Na, gyda rhesymau) | |
| Dyddiad pryd yr hysbyswyr | |
| Dyddiad pryd cafwyd cydnabyddiaeth gan y Rheoleiddiwr Pensiynau | |

**Atodiad 2**

**Siart Llif y Weithdrefn**

**A oes, neu a fu, achos o beidio â chydymffurfio â'r dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i weinyddu'r cynllun?**

↓ Oes / Do

**A oes risg y gallai trafodaethau rybuddio'r rhai dan sylw neu rwystro gwaith yr heddlu neu awdurdod rheoleiddio (e.e. mewn achos o ladrad, amheuaeth o dwyll ariannol neu droseddau difrifol eraill)?**

↓ Nac oes → **Hysbysu Cydymffurfiaeth**

↓ Oes → **Hysbysu'r Rheoleiddiwr**

**Hysbysu Cydymffurfiaeth**

↓

**Cydymffurfiaeth yn cofnodi ac yn defnyddio'r ffurflen tPR, dechrau ar yr ymchwiliad**

↓

**A yw'r methiant i gydymffurfio yn debygol o fod ag arwyddocâd perthnasol i'r Rheoleiddiwr? Ystyriwch bob un o'r ffactorau isod gan ddefnyddio'r fframwaith goleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd)**

| Achos | Effaith | Ymateb i | Goblygiadau ehangach |
|---|---|---|---|
| Arwyddocâd perthnasol:<br>• Anonestrwydd<br>• Llywodraethu neu weinyddu gwael<br>• Arferion gwneud penderfyniadau yn rhai araf neu amhriodol<br>• Cyngor anghyflawn neu anghywir, neu<br>• Weithredu (neu fethu â gweithredu) yn fwriadol groes i'r gyfreithiol<br>• Achosion eraill a hysbyswyd neu na hysbyswyd yn eu cylch<br>• Achosion unigol cyson | • Ystyried yr effaith<br>• Ystyried unrhyw achosion eraill o dorri'r gyfraith sy'n digwydd o ganlyniad i'r achos cyntaf, ac effeithiau'r achosion dilynol hynny | Nid ag arwyddocâd perthnasol os:<br>• Cymerir camau prydlon ac effeithiol<br>• Hysbysir yr aelodau y mae'r mater yn effeithio arnynt | Arwyddocâd perthnasol:<br>• Pan fo'r ffaith fod yr achos wedi digwydd yn ei gwneud iddi ymddangos y bydd achosion eraill yn dod i'r amlwg yn y dyfodol |

**Cydymffurfiaeth i ddefnyddio crebwyll i benderfynu pa oleuadau traffig sy'n berthnasol i'r achos**

| **Coch** | **Melyn** | **Gwyrdd** |
|---|---|---|
| **Rhaid hysbysu** | **Cydymffurfiaeth i ddefnyddio crebwyll i benderfynu** | **Does dim angen hysbysu** |

**Cydymffurfiaeth i ddogfennu'r penderfyniad i hysbysu ai peidio, ac os oes angen hysbysu, bydd raid hysbysu'r Rheoleiddiwr ynghylch y mater**
**.**

**Fel rhan o gydymffurfiaeth Cod ymarfer tPR, rhoi gwybod i'r Bwrdd Pensiwn bob blwyddyn faint o achosion o dorri'r gyfraith yr hysbyswyd y Rheoleiddiwr yn eu cylch.**